

Swyddogion Cymorth Cymunedol – Straeon Newyddion Da

Rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2019

Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig

Beics yn cael eu dwyn yng ngorsaf Caerdydd Canolog a gorsaf Heol y Frenhines

Roedd beics yn cael eu dwyn o'r raciau beics y tu allan i'r gorsafoedd ac ar y platfformau. Fe wnaeth Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig ymgymryd â chyfres o gynlluniau i fynd i'r afael â'r troseddau. Bob diwrnod pan oeddent ar batrôl, roeddent yn rhoi nodyn wedi ei lamineiddio ar y beics yn rhybuddio'r perchnogion bod beics wedi bod yn cael eu dwyn. Roeddent yn gwneud yn siŵr bod camerâu CCTV y gorsafoedd yn anelu at y raciau pan oedd hynny'n bosibl. Fe wnaethant sicrhau cyllid o gronfa ganolog y Ddeddf Enillion Troseddau, gan brynu 200 o gloeon beics o ansawdd da. Pe byddent yn gweld beic arbennig o werthfawr â chlo gwael amdano, byddent yn clymu'r beic ag un o'r cloeon newydd, gan adael nodyn i'r perchennog yn dweud wrtho am ffonio'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig. Yna, byddent yn rhoi cyngor i'r perchennog ynghylch gostwng troseddau, ac yn gadael iddo gadw'r clo newydd. Mae troseddau mewn cysylltiad â beics wedi gostwng o 43 o droseddau i 18 o droseddau, sy'n ostyngiad o 58% dros y flwyddyn ddiwethaf.

Heddlu Dyfed-Powys

Yn ystod Wythnos Dwysáu Ymdrechion i Daclo Llinellau Cyffuriau ym mis Hydref, fe wnaeth Swyddog Cymorth Cymunedol yn Aberhonddu weithio mewn partneriaeth â'r adran ymchwilio i droseddau i gynnal gweithgareddau sicrhau diogelwch gydag ieuencid sydd mewn perygl o gamfanteisio rhywiol, gan godi rhagor o ymwybyddiaeth ymysg y rheini sy'n gweithio mewn safleoedd masnachol ac ar fysiau a thacsis. O ganlyniad i hyn, casglwyd gwybodaeth werthfawr, ac roedd gan yr ieuencid ddealltwriaeth well o'r gwahanol fathau o gamfanteisio sy'n bodoli, gan gynnwys camfanteisio troseddol, rhywiol ac ariannol, yn ogystal â dealltwriaeth o faterion sy'n ymwneud â llinellau cyffuriau.

Heddlu Gwent

Beics oddi ar y ffordd – mynyddoedd Cwmcarn/Abercarn

Mae Swyddogion Cymorth Cymunedol wedi bod yn targedu beicio oddi ar y ffordd a oedd yn achosi nifer o alwadau. Fe wnaeth swyddogion ar batrôl gymryd camau arloesol i dargedu cerbydau a oedd yn cludo'r beics, gan fod llawer o risgiau iechyd a diogelwch yn gysylltiedig â mynd ar ôl y beics eu hunain. Mae'r Swyddogion yn anfon llythyrau rhybuddio a rhybuddion o dan adran 59. Fe wnaeth y Swyddogion gwrrdd â gweithwyr yr orsaf betrol leol hefyd er mwyn dysgu ar ba adegau y mae'r beicwyr yn rhoi tanwydd yn eu beics fel arfer.

Heddlu Gogledd Cymru

Targeddu gyrrwyr ifanc yn Nhywyn, Meirionnydd

Yn sgil cwynion gan breswylwyr lleol, fe wnaeth Shannon-Louise Llwyd-Hopcroft a Sandie Williams, y ddwy yn Swyddogion Cymorth Cymunedol, drefnu i geisio atal gyrru gwrthgymdeithasol. Cysylltodd y ddwy â'r Uned Diogelwch ar y Ffyrdd i drefnu ymgyrch i dargedu'r rheini sy'n gyrru cerbydau wedi eu haddasu mewn modd gwrthgymdeithasol, ac yn rhy gyflym, ar Stryd Fawr Tywyn.

Yn ystod y noson, fe wnaeth sawl swyddog troseddau gyhoeddi amryw o Adroddiadau Troseddau Traffig am amryw o resymau. Fe wnaeth rhai o weithwyr Gan Bwyll gymryd rhan yn yr ymgyrch hefyd, gan anfon llythyrau at yrwyr a gafodd eu dal yn gyrru yn rhy gyflym.

Dywedodd Carl Williamson, Prif Arolygydd Arbennig yr Uned Diogelwch ar y Ffyrdd: "Rydym yn gwybod bod llawer o sylwadau wedi eu gwneud ar gyfryngau cymdeithasol yn ystod y noson ac roeddem yn amlwg wedi achosi cynnwrf drwy fod yn yr ardal. Rwy'n sicr bod ein presenoldeb yno wedi atal rhagor o gwynion." "Ein prif nod wrth weithredu fel hyn yw cadw pobl yn ddiogel a gostwng nifer y gyrrwyr ifanc sy'n cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol ar ein ffyrdd. Byddwn yn parhau i weithio gyda swyddogion plismona lleol i atal ymddygiad o'r fath." "Mae rhagor o ymgyrchoedd wedi eu trefnu ac rwy'n annog y cyhoedd i ddal ati i roi gwybod inni os ydynt yn gweld rhywun yn gyrru mewn modd gwrthgymdeithasol yn yr ardal."

Heddlu De Cymru

Calendr Gwarchod Gwledig 2020



Gan adeiladu ar lwyddiant ein cynllun Gwarchod Gwledig, fe wnaeth Suzanne Birch, sy'n Swyddog Cymorth Cymunedol, ac aelodau eraill o dîm Plismona yn y Gymdogaeth Uned Rheoli Sylfaenol y Gorllewin, weithio gyda ffermwyr lleol ac aelodau o'n cymunedau gwledig i ddatblygu calendr arbennig ar gyfer 2020. Ei nod yw rhannu negeseuon atal troseddau tymhorol a chyfeirio pobl at wasanaethau a chymorth perthnasol.

Mae troseddwy'r yn aml yn targedu ein hardaloedd gwledig, gan gredu ei bod yn rhwydd gwneud hynny. Fodd bynnag, mae'r cynllun Gwarchod Gwledig yn rhoi cyngor ar atal troseddau, yn ogystal â rhoi rhybuddion.

Mae'r tîm lleol yn cyhoeddi llawer o gynnwys atal troseddau drwy gyfryngau cymdeithasol lleol. Fodd bynnag, ar ôl ymgysylltu â'r gymuned am gyfnod hir, roedd Suzanne Birch yn gwybod bod llawer o bobl yn y gymuned nad oedd ganddynt gyfrifon cyfryngau cymdeithasol. Felly, penderfynodd y byddai dogfen bapur yn ffordd well o gyfathrebu â'r gynulleidfa hon.

Mae'r calendr hwn yn cynnwys rhestr wirio diogelwch, cyngor ar ddiogelu peiriannau fferm a beics cwad, gwybodaeth ynghylch tanau glaswellt, yn ogystal â llawer o gymorth a chynghorion eraill ynghylch atal troseddau.

Yn ogystal â gwybodaeth am droseddau, mae'r calendr hefyd yn cynnwys negeseuon a chynghor mewn perthynas â materion iechyd meddwl, sy'n destun pryder i lawer o'n cymunedau gwledig.

Cafodd y calendrau eu dosbarthu ym mis Rhagfyr a manteisiodd Swyddogion Cymorth Cymunedol ar y cyfle i ymgysylltu â phreswylwyr a rhoi tawelwch meddwl iddynt wrth ymweld â ffermydd a chartrefi ar eu pen eu hunain. Mae'r adborth wedi bod yn gadarnhaol iawn ac mae'r calendrau unigryw a'r posteri cysylltiedig yn cael eu harddangos yn falch ledled yr ardal.

Dywedodd y Rhingyll Lynne Bowen: "Mae ymgysylltu â'n cymunedau gwledig yn bwysig inni. Gobeithio y bydd y calendr yn ffordd o atgoffa aelodau ein cynllun Gwarchod Gwledig bob mis o'r hyn y gallant ei wneud i'n helpu i atal troseddau yn eu cymunedau."